## GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

## Y FANYLEB PERSON

| | |
|---|---|
| **Adran** | Cyflwyno Gwasanaeth (Gweithrediadau) |
| **Swydd** | Diffoddwr Tân Llawn Amser |
| **Lleoliad** | Cadarnhau gorsaf waith |
| **Yn gyfrifol i'r** | Rheolwr yr Orsaf |

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir ac a nodir â seren*** at ddibenion llunio rhestr fer. Sicrhewch eich bod yn mynd i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais o fewn dogfen Word neu PDF ar wahân wedi'i huwchlwytho i'r *'adran Atodiadau Gwybodaeth Ategol'* Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

**Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais. ***

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/Dymunol |
|---|---|---|
| **Gallu Cyffredinol** | TGAU Mathemateg a Saesneg neu Sgiliau Hanfodol Lefel 2 mewn Cymhwyso Rhif a Chyfathrebu. Gellir gofyn i ymgeiswyr nad oes ganddynt y cymwysterau hyn gael eu hasesu i gadarnhau eu lefelau yn y pynciau hyn. | Dymunol ar y ffurflen gais |
| | **Bydd disgwyl i ddiffoddwyr tân gweithredol yrru amrywiaeth o Gerbydau Gwasanaeth Tân; felly, mae Trwydded Yrru Lawn y DU yn hanfodol.*** | **Hanfodol ar y ffurflen gais*** |
| | **Bydd gweithio fel diffoddwr tân yn arwain at amrywiaeth o alwadau gwasanaeth brys a gall rhai ohonynt fod yn gysylltiedig â dŵr er enghraifft llifogydd ac achub o ddŵr. Rhaid i ymgeiswyr fod yn hyderus ac yn gallu nofio heb gymorth mewn dŵr agored.*** | **Hanfodol ar y ffurflen gais*** |
| **Gwybodaeth/Profiad** | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol |
| | **Ymwybyddiaeth o rôl Ymladdwr Tân.** | **Hanfodol ar y ffurflen gais*** |
| **Arddull Bersonol** | Meddu ar ddealltwriaeth a pharch tuag at wahaniaethau pobl a bod yn ymrwymedig i fabwysiadu agwedd deg tuag at eraill. | Hanfodol<br>Y Broses Ddethol |
| | Y gallu i gynnal agwedd hyderus a chydnerth mewn sefyllfaoedd hynod heriol | Hanfodol<br>Y Broses Ddethol |
| | Bod yn agored i newid ac â'r ewyllys i geisio'i gefnogi'n weithredol. | Hanfodol<br>Y Broses Ddethol |

| | | |
|---|---|---|
| **Rhyngbersonol** | Y gallu i weithio'n effeithiol gydag eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r gymuned ill dau.<br><br>Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd.<br><br>Y cymhelliad i ddatblygu a'r gallu i ddatblygu eich hun ac eraill. | Hanfodol<br>Y Broses Ddethol<br><br>Hanfodol<br>Y Broses Ddethol<br><br>Hanfodol<br>Y Broses Ddethol |
| **Tasg** | Y gallu i ddeall, dwyn i gof, gweithredu ac addasu gwybodaeth berthnasol mewn modd trefnus, diogel a chyfundrefnol.<br><br>Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth fyw o'r amgylchfyd i hyrwyddo gweithio diogel ac effeithiol.<br><br>Y gallu i fabwysiadu agwedd gydwybodol a rhagweithiol at waith i gyflawni a chynnal safonau rhagorol<br><br>Y gallu i gynnal lefel uchel o weithgaredd a gyfeiriwyd yn briodol gan ddangos yr ymroddiad a'r gallu i weithio'n galed mewn amgylchedd heriol.<br><br>Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau a chymryd cyfarwyddyd.<br><br>Cynhwysedd/Ffitrwydd erobig priodol.<br><br>Golwg digymorth a gweledriad lliw boddhaol.<br><br>Clyw Boddhaol.<br><br>Y gallu i weithio o uchder ac mewn gwagleoedd cyfyng. | Hanfodol<br>Y Broses Ddethol<br><br>Hanfodol<br>Y Broses Ddethol<br><br>Hanfodol<br>Y Broses Ddethol<br><br>Hanfodol<br>Y Broses Ddethol<br><br>Hanfodol<br>Y Broses Ddethol<br><br>Hanfodol<br>Y Broses Ddethol<br><br>Hanfodol yn y Broses<br><br>Hanfodol<br>Y Broses Ddethol<br><br>Hanfodol<br>Y Broses Ddethol |

**Ein Hymrwymiad i chi…**

**Os ydych chi o'r farn** bod gennych anabledd ac os ydych chi'n teimlo y gallwch gwrdd â gofynion hanfodol Ymladdwr Tân Gweithredol, yn unol â'r Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person, ond bod y broses asesu yn eich rhwystro rhag arddangos eich gallu'n llawn, ystyrrir diwygiadau rhesymol i'r broses. **I sicrhau bod y cymorth hwnnw ar gael yn barod, mae'n ofynnol i chi ddod â'ch anghenion penodol at sylw'r Tîm Recriwtio ac Adnoddau cyn i'r asesiadau gael eu cynnal.**

**Sylwch:** Mae'n ofynnol i ymgeiswyr fod dros 17 mlwydd a 6 mis oed adeg gyflwyno'r cais.